# CYNGOR GWYNEDD – Adroddiad i Gabinet Cyngor Gwynedd

| | |
|---|---|
| **Teitl yr eitem:** | Dogfen Ymgynghorol Amcanion Cydraddoldeb 2024-28 |
| **Aelod Cabinet:** | Cynghorydd Menna Trenholme, Aelod Cabinet Cefnogaeth Gorfforaethol |
| **Swyddog perthnasol:** | Delyth G Williams, Ymgynghorydd Cydraddoldeb |
| **Dyddiad y cyfarfod:** | 28 Tachwedd 2023 |

**1. Penderfyniad a Geisir:**

I ryddhau'r ddogfen ymgynghorol Amcanion Cydraddoldeb 2024-28 ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus yn unol a'r adroddiad.

**2. Y rheswm pam fod angen i'r Cabinet wneud y penderfyniad:**

Yn ôl y ddyletswydd penodol sydd ar fudiadau cyhoeddus Cymru fel rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, mae angen creu Cynllun Cydraddoldeb Statudol bob pedair blynedd. Fel rhan o hynny mae angen adolygu ein Amcanion Cydraddoldeb ar gyfer y cyfnod. Mae hefyd yn rhan o'r ddyletswydd penodol i gynnwys pobl â nodweddion gwarchodedig wrth wneud ein penderfyniad.

**3. Cyflwyniad a Rhesymeg**

**3.1 Cefndir/Cyflwyniad**

Mae'r Cabinet eisoes wedi adnabod Sicrhau Tegwch i Bawb, sef y Cynllun Cydraddoldeb Strategol, fel un o flaenoriaethau'r Cyngor drwy Gynllun y Cyngor. Mae cyfnod y Cynllun presennol, ynghyd â'r Amcanion, yn dod i ben yn fuan ac mae'n rhaid cael rhai diwygiedig mewn lle ar gyfer dechrau mis Ebrill 2024. Rydym felly'n gweithio i sicrhau fod gennym ni amcanion addas ar gyfer y cyfnod 2024-28.

**3.2 Rhesymeg a chyfiawnhad dros argymell y penderfyniad**

Er mwyn creu'r Amcanion yma rydym wedi ymgysylltu'n eang gyda amrywiaeth o bobl rhwng Ebrill ac Awst 2023. Gan fod hi'n anodd i bobl roi sylwadau ar ddalen wag rydym wedi cychwyn drwy ofyn barn ar ein Amcanion presennol ond wedyn wedi symud ymlaen i ofyn iddynt beth arall fydda nhw'n flaenoriaethu. Mae'r dulliau ddefnyddiwyd yn cynnwys holiadur mewn fformatau a ieithoedd amrywiol, sydd wedi derbyn bron iawn i 600 o ymatebion. Hefyd mae'r swyddogion cydraddoldeb wedi cyfarfod gydag ystod o grwpiau o bobl â nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys gofalwyr ifanc, pobl anabl, pobl LHDTC+, ayb. Mae adroddiad ar yr ymgynghoriad i'w weld fel atodiad. Hyrwyddwyd yr ymgysylltiad yn eang, drwy amrywiol ddulliau gan gynnwys Newyddion Gwynedd, datganiadau i'r wasg, gwefannau cymdeithasol, e-byst i fudiadau, rhoi cardiau côd QR allan mewn digwyddiadau.

Mae gennym hefyd ddogfen ddata o'r enw *Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023* sy'n casglu gwybodaeth o ffynonellau eang at ei gilydd. Comisiynwyd y gwaith, sydd wedi ei greu gan Wasanaeth Ymchwil a Gwybodaeth Cyngor Gwynedd, gan Rhwydwaith Cydraddoldeb Sector Gyhoeddus Gogledd Cymru (gyda chyllid gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gogledd Cymru), er mwyn cael yr wybodaeth angenrheidiol ar gyfer adnabod amcanion i gyd yn yr un lle. Mae'r ddogfen yma hefyd wedi ei gynnwys fel atodiad.

Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi creu cynlluniau gweithredu ym meysydd gwrth-hiliaeth a LHDTC+ sydd yn rhoi arweiniad i ni.

Dim ond ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth yma rydym ni wedi addasu ein amcanion a chreu drafft ar gyfer ymgynghori arnynt. Dyna yw'r ddogfen ymgynghori sydd wedi ei atodi.

Rhan bwysig o wneud y gwaith yma ydi'r *Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ardrawiad Economaidd-Gymdeithasol*, sydd wedi ei atodi. Gan mai bwriad yr Amcanion yw gwella tegwch, mae'r Asesiad Effaith yn sicr yn dangos hynny. Ond mae hefyd wedi rhoi'r siawns i ni weld ble mae angen canolbwyntio ein ymdrechion a gwirio fod yna ddim canlyniadau annisgwyl yn codi ohonynt.

Mae'r Asesiad Effaith hefyd yn dangos fod yr Amcanion yn cael effaith bositif ar anfantais economaidd-gymdeithasol, rhywbeth sy'n ofynnol i ni edrych arno dan Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol 2021. Mae data yn dangos fod pobl hefo rhai nodweddion gwarchodedig yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi ariannol neu gael eu heffeithio'n fwy aml neu'n fwy llym gan ffactorau fel tlodi digidol neu fyw ymhell o wasanaethau. Mae'r ffaith fod yr Amcanion yn cael effaith bositif ar bobl â'r nodweddion yna felly'n golygu ein bod yn lleihau'r agendor economaidd-gymdeithasol.

Gwelir hefyd fod yr Amcanion yn gyffredinol yn cael effaith bositif ar yr iaith Gymraeg, a bod camau penodol yn cael eu cynnig ar gyfer dileu unrhyw effaith negyddol posib.

Mae'r Asesiad Effaith hefyd yn edrych ar Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n dangos fod yr Amcanion, a'r ffordd rydym wedi gweithredu, yn cydymffurfio gyda'r Ddyletswydd Datblygiad Cynaliadwy dan y ddeddf, gan gyfarch y 5 ffordd o weithio.

Yn sgil yr uchod, rydym yn credu fod y ddogfen yn addas i'w chyhoeddi fel Dogfen Ymgynghorol. Wedi dweud hynny, drafft yn unig yw'r ddogfen ar hyn o bryd, a rydym yn barod iawn i'w newid yn dilyn camau nesaf.

### 3.3 Camau nesaf

Petai'r Cabinet yn derbyn y ddogfen ymgynghori yma byddwn yn cynnal cyfnod o ymgynghoriad ar yr Amcanion. Byddwn yn addasu'r ddogfen sydd wedi ei atodi er mwyn ei gwneud yn addas ar gyfer cynulleidfaoedd gwahanol (e.e. holiadur, ieithoedd gwahanol, hawdd ei ddarllen). Y bwriad yw darparu holiadur mewn amryw fformat, ond hefyd derbyn sylwadau ar e-bost neu lythyr os ydi hynny'n siwtio'r ymatebydd yn well. Yn ogystal, bydd y swyddogion cydraddoldeb yn ymweld â grwpiau o bobl â nodweddion cydraddoldeb, rhai

gwahanol y tro hyn, er mwyn cael eu barn. Credwn mai'r ymarfer gorau yw ymweld â phobl yn hytrach na disgwyl iddynt hwy ddod atom ni. Byddwn yn ymdrechu i gyrraedd grwpiau sydd wedi eu tan-gynrychioli yn yr ymgysylltiad a / neu yn grwpiau fyddai yn annhebygol o gymryd rhan fel arall.

Rydym yn disgwyl y bydd angen addasu'r Amcanion a'r Asesiad Effaith yn sgil y sylwadau a gawn yn yr ymgynghoriad er mwyn gwella'r ddogfen. Ar ôl gwneud yr addasiadau byddwn yn dod â'r Amcanion, fel rhan o'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol yn ôl i'r Cabinet ar gyfer eich penderfyniad terfynol.

**4. Sylwadau Swyddogion Statudol**

**4.1 Prif Swyddog Cyllid**

Dim i'w ychwanegu o safbwynt priodoldeb ariannol.

**4.2 Swyddog Monitro**

Mae'r argymhelliad i ymgynghori ar Amcanion Cydraddoldeb arfaethedig yn gam pwysig wrth greu y Strategaeth Cydraddoldeb 24-28. Rwy'n fodlon a phriodoldeb cynnal ymgynghoriad a'r Amcanion drafft.

**Rhestr Atodiadau**

Dogfen Ymgynghorol Amcanion Cydraddoldeb 2024-28
Asesiad Effaith ar Nodweddion Cydraddoldeb, y Gymraeg ac Ardrawiad Economaidd-Gymdeithasol
Adroddiad ar yr Ymgynghoriad
Cydraddoldeb yng Ngogledd Cymru 2023

**Rhestr Dogfennau Cefndir**